**Memorandwm Esboniadol ar gyfer:**

**Cod Ymarfer Rhan 8 – Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ffurf Ragnodedig) (Cymru) (Diwygio a Darpariaeth Drosiannol) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig y Cod Ymarfer Rhan 8 – Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ffurf Ragnodedig) (Cymru) (Diwygio a Darpariaeth Drosiannol) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Julie Morgan AS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**14 Rhagfyr 2023**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

Cafodd Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ffurf Ragnodedig) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") eu gwneud i nodi'r wybodaeth benodol sydd i'w chynnwys yn adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol sy'n ymwneud â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, a'r penawdau y dylid cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol oddi tanynt.

Mae'r Cod Ymarfer Rhan 8 – Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ("y Cod Rhan 8") a ddyroddwyd o dan Ran 8, adran 145(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn nodi'r gofynion amrywiol ar gyfer yr adroddiad blynyddol. Mae adran 145(3) o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol sydd wedi'u cynnwys mewn cod a ddyroddir o dan adran 145(1) a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd wedi'u cynnwys ynddo.

Yn 2020, dyroddodd Llywodraeth Cymru y Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Roedd y cod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu data ar weithgarwch a pherfformiad, ymgymryd â gweithgareddau i ddeall profiadau pobl a defnyddio'r dystiolaeth i ysgogi gwelliant.

Ers dyroddi'r Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, mae awdurdodau lleol wedi bod yn darparu datganiadau data blynyddol. Er mwyn adrodd yn erbyn y ddau ofyniad arall (deall profiadau a defnyddio tystiolaeth ar gyfer gwella), mae'r Cod Rhan 8 presennol, a ddyroddwyd ar 16 Mawrth 2016, yn cael ei ddiwygio i ystyried y gofynion o dan y Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Bydd y Cod  Rhan 8 diwygiedig yn disodli'r cod a ddyroddwyd ym mis Mawrth 2016.

Mae'r diwygio'r Cod Rhan 8 yn rhoi'r cyfle i roi canllawiau newydd i awdurdodau lleol ar baratoi eu hadroddiadau blynyddol, i'w cysoni â'r adroddiad hunanasesu corfforaethol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021").

Mae Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ffurf Ragnodedig) (Cymru) (Diwygio a Darpariaeth Drosiannol) 2023 ("Rheoliadau 2023") yn diwygio Rheoliadau 2017 i ddiweddaru'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn adroddiadau blynyddol a'r penawdau y dylid cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol oddi tanynt. Bydd hyn yn cyd-fynd â gofynion y Cod Rhan 8 diwygiedig.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Cyflwynwyd adran 144A o Ddeddf 2014 ar 4 Medi 2017 drwy gychwyn adran 56(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, ac mae'n gwneud darpariaeth mewn perthynas ag adroddiadau blynyddol gan awdurdodau lleol ynghylch arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys darpariaeth yn ymwneud â chynnwys a ffurf yr adroddiadau hynny.

Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys manylion ynglŷn â sut y mae'r awdurdod wedi arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ariannol gan gynnwys manylion ynghylch i ba raddau y mae wedi gweithredu yn unol â'r gofynion a osodwyd ar awdurdodau lleol gan god a ddyroddwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2014 (codau am arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol) ac unrhyw wybodaeth arall a ragnodir gan reoliadau.

*Rheoliadau 2023*

Gwneir Rheoliadau 2023 yn unol â phwerau Gweinidogion Cymru yn adran 144A(4) o Ddeddf 2014.

*Gweithdrefn*

Mae adran 196(4) o Ddeddf 2014 yn nodi bod offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf yn ddarostyngedig i'w ddirymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y mae pob cyfeiriad a wneir ato o dan Ddeddf 2014 bellach yn cyfeirio at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Yn amodol ar Senedd Cymru yn peidio â gwneud penderfyniad o'r fath, daw Rheoliadau 2023 i rym ar 1 Ebrill 2024.

*Y Cod Rhan 8 diwygiedig a'r Gorchymyn Diwrnod Penodedig*

Mae Adran 145 o Ddeddf 2014 yn nodi pwerau cyffredinol Gweinidogion Cymru i ddyroddi, a diwygio o bryd i'w gilydd, un neu fwy o godau ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n darparu fel a ganlyn:

- Caiff cod osod gofynion, a chaiff gynnwys canllawiau sy'n disgrifio nodau, amcanion a materion eraill.
- Rhaid i awdurdod lleol, wrth arfer swyddogaethau awdurdodau lleol, weithredu yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol sydd wedi'u cynnwys mewn cod, yn ddarostyngedig i adran 147 (gwyro oddi wrth ofynion mewn codau), a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd ynddo.
- Caiff cod bennu nad yw adran 147 yn gymwys i ofyniad sydd wedi ei gynnwys yn y cod.
- Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi ar eu gwefan bob cod sydd am y tro mewn grym, a threfnu bod y codau sydd wedi eu disodli neu eu dirymu (p'un a ydynt ar eu gwefan neu fel arall) ar gael i'r cyhoedd.

Mae adran 146(4)(b) o Ddeddf 2014 yn darparu'r pŵer i ddiwygio'r Cod Rhan 8 presennol ac ar gyfer dod ag ef i rym drwy orchymyn diwrnod penodedig, ar yr amod bod y weithdrefn a nodir isod yn cael ei bodloni.

*Gweithdrefn*
Mae adran 146 o Ddeddf 2014 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, cyn dyroddi neu ddiwygio cod o dan adran 145:

- ymgynghori ag unrhyw bersonau sy’n briodol yn eu barn hwy ar ddrafft o'r cod (neu'r cod diwygiedig); a
- gosod copi o'r drafft gerbron Senedd Cymru.

Os bydd Senedd Cymru yn penderfynu cyn diwedd y cyfnod o 40 diwrnod na fydd yn cymeradwyo'r drafft, ni chaiff Gweinidogion Cymru ddyroddi'r cod (neu'r cod diwygiedig) ar ffurf drafft. Os na wneir penderfyniad o'r fath cyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod ar ffurf drafft a daw'r cod (neu'r cod diwygiedig) i rym ar y dyddiad a bennir drwy orchymyn Gweinidogion Cymru.

Os na wneir penderfyniad gan Senedd Cymru a bod y Cod Rhan 8 drafft yn cael ei ddyroddi, gwneir Gorchymyn y Cod Ymarfer Diwygiedig ar Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol) (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2024 i ddod â'r cod diwygiedig i rym ar 1 Ebrill 2024.

Nid yw'r Gorchymyn Diwrnod Penodedig hwn yn ddarostyngedig i un o weithdrefnau craffu'r Senedd, ac nid yw'n ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Senedd.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

*Rheoliadau 2023*

Diben Rheoliadau 2023 yw diwygio'r Rheoliadau 2017 presennol, er mwyn diweddaru'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn adroddiadau blynyddol a'r penawdau y dylid cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol oddi tanynt. Mae hyn er mwyn sicrhau cysondeb â gofynion y Cod Rhan 8 diwygiedig.

*Y Cod Rhan 8*

Er bod y Cod Rhan 8 yn cwmpasu rôl lawn Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r newidiadau arfaethedig sy'n cael eu gwneud yn ymwneud yn benodol ag adran 5 a pharatoi'r adroddiadau blynyddol.

Diben adran 5 o'r Cod Rhan 8 yw diffinio'r disgwyliadau o ran paratoi'r adroddiadau blynyddol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae'r Cod Rhan 8 yn nodi sut y dylid cyflwyno'r adroddiad blynyddol mewn modd sy'n amlinellu sut y mae'r awdurdod lleol wedi cyflawni'r wyth safon ansawdd mewn perthynas â chanlyniadau llesiant fel y'u disgrifir yn y Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, a ddyroddwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2014.

Mae Adran 5 o'r Cod Ymarfer yn ymdrin â'r Adroddiad Blynyddol. Mae wedi'i

diwygio i gyd-fynd â'r Fframwaith Perfformiad a Gwella a'r canllawiau newydd, yn benodol o ran amlinellu diben yr adroddiad, sef:

- Amlinellu taith wella awdurdod lleol o ran darparu gwasanaethau i bobl sy'n cael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth ac unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth a gofalwyr sy'n derbyn cymorth.
- Defnyddio gwybodaeth a gafwyd o'r cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a ffynonellau eraill i ddangos sut y mae awdurdodau lleol wedi hyrwyddo llesiant ac wedi rhoi cyfrif am gyflawni safonau ansawdd.
- Rhoi tystiolaeth o gynnydd yn erbyn yr wyth safon ansawdd a llywio penderfyniadau ar sut i ymateb o safbwynt swyddogaeth y gwasanaeth cymdeithasol ar lefel gorfforaethol, sefydliadol.
- Rhoi tystiolaeth o sut y mae'r safonau a'r egwyddorion yn y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yn cyfrannu at ddiwallu anghenion pobl sy'n derbyn gofal a chymorth gan wasanaethau cymdeithasol ac at wella canlyniadau llesiant.
- Galluogi Llywodraeth Cymru i goladu, dadansoddi a deall data a thystiolaeth yn ymwneud â darparu gofal, a chymorth i ofalwyr yng Nghymru.

Rhaid i'r adroddiad blynyddol nodi hefyd sut y mae'r awdurdod lleol wedi bodloni gofynion perthnasol a gynhwysir yn y Codau Ymarfer sy'n ymwneud â rhannau eraill o Ddeddf 2014, megis asesu anghenion unigolyn yn unol â Rhan 3, diwallu anghenion o dan Ran 4 a threfniadau comisiynu effeithiol o dan Ran 8 o'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth.

Mae canllawiau ychwanegol wedi'u llunio er mwyn helpu i baratoi'r adroddiadau blynyddol. Mae'r canllawiau hyn yn disgrifio'n fanylach y disgwyliadau ar gyfer yr hyn sydd i'w gynnwys yn yr adroddiad blynyddol. Mae hefyd yn darparu templed ar gyfer yr adroddiadau blynyddol i gynorthwyo â'r drafftio.

Y bwriad yw y bydd y Cod Rhan 8 diwygiedig hwn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2024. Bydd hyn yn cyd-fynd â Rheoliadau 2023 yn dod i rym.

Mae Rheoliadau 2023 yn cynnwys darpariaeth drosiannol i'w gwneud yn glir ac yn ddiamwys i awdurdodau lleol:

- bod Rheoliadau 2017 yn gymwys i adroddiadau blynyddol a baratowyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24; ac
- y bydd Rheoliadau 2023 yn gymwys i adroddiadau blynyddol a baratoir ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 ac o hynny ymlaen.

Rhoddir pŵer i wneud darpariaeth drosiannol o dan adran 196(2)(c) o Ddeddf 2014.

Rhoddir ystyr blwyddyn ariannol yn adran 144A(6) o Ddeddf 2014, sef y cyfnod o flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth.

Mae'r Cod Rhan 8 diwygiedig yn cynnwys datganiad yn cadarnhau ei fod yn disodli'r Cod Rhan 8 a ddyroddwyd ar 16 Mawrth 2016.

## 5. Ymgynghori

Mae adran 146(1) o Ddeddf 2014 yn datgan bod rhaid i Weinidogion Cymru, cyn cyflwyno neu ddiwygio cod o dan adran 145, ymgynghori ar god drafft gydag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy. Cyn ymgynghori'n ffurfiol, datblygwyd a phrofwyd y canllawiau technegol ategol gan Practice Solutions mewn cydweithrediad agos ag ystod eang o grwpiau rhanddeiliaid a fu'n cyfarfod yn rheolaidd rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Mehefin 2022.

Ymgynghorwyd ar y Cod Rhan 8, ynghyd â'r canllawiau technegol drafft sy'n cefnogi'r Fframwaith Perfformiad a Gwella, mewn ymgynghoriad 12 wythnos a gynhaliwyd rhwng 22 Mai ac 14 Awst 2023. Roedd y Cod Rhan 8 hwn yn rhan o ddogfen ymgynghori ehangach, yn ymwneud â'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth. Cafwyd 27 o ymatebion gan awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector ac unigolion i'r adran o'r ymgynghoriad a oedd yn ymwneud â'r cod hwn.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, adolygwyd Cod Rhan 8, Rheoliadau 2023 a'r canllawiau, a gwnaed diwygiadau lle bo'n briodol, er mwyn ystyried safbwyntiau'r ymatebwyr. Cytunodd yr ymatebwyr fod canllawiau'r Adroddiad Blynyddol yn ychwanegu budd ac y byddant o gymorth i'r sector wrth symud ymlaen. Mewn ymateb i'r adborth a gafwyd:

- Daw'r canllawiau newydd ar gyfer Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol i rym o 1 Ebrill 2024, ond oherwydd y cyfnod pontio, yr adroddiadau a lunnir ynghylch blwyddyn ariannol 2024/25 fydd yr adroddiadau cyntaf sy'n seiliedig ar y canllawiau newydd.
- Argymhellir fod awdurdodau lleol yn darparu crynodeb byr o'r adroddiadau ar gyfer y cyhoedd fel dogfen annibynnol ar wahân.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn ategu'r canllawiau newydd drwy gynhyrchu pecyn cymorth, a fydd yn cynnwys templedi, opsiynau dylunio a dogfen cwestiynau cyffredin.
- Bydd rhwydwaith yn cael ei sefydlu a fydd yn cynnwys staff awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â llunio'r adroddiadau blynyddol.
- O blith y rhwydwaith hwn, byddwn yn chwilio am grŵp o wirfoddolwyr i ffurfio gweithgor ar gyfer drafftio fersiynau cyntaf y pecyn cymorth.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio gwneud defnydd pellach o'r adroddiadau a gyflwynwyd, a'u dadansoddi, i lunio adroddiad 'Cyflwr y Genedl', sy'n crynhoi canfyddiadau'r Adroddiadau Blynyddol, wedi'i ategu

gan ddata o'r gweithgarwch Fframwaith Perfformiad a Gwella a chasglu data perfformiad.

Cyhoeddwyd adroddiad yn crynhoi'r ymateb i'r ymgynghoriad, ynghyd â rhestr o'r ymatebwyr, ar wefan Llywodraeth Cymru ar 28 Tachwedd 2023[1].

[1] Dogfen Ymgynghori yn ymwneud â'r Cod Ymarfer ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol): Y rhaglen ailgydbwyso gofal a chymorth | LLYW.CYMRU

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae cynhyrchu'r adroddiad blynyddol ar wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn ofyniad statudol. Mae rheoliadau a wneir o dan ddeddfwriaeth sylfaenol yn nodi ar ba ffurf y mae'n ofynnol i adroddiadau fod, gan gynnwys yr wybodaeth sydd i'w chynnwys a'r penawdau y dylid darparu gwybodaeth oddi tanynt. Mae hyn yn adlewyrchu'r adroddiad templed sy'n ymddangos ar wefan Llywodraeth Cymru.

Daeth y canllawiau i rym yn gyntaf o flwyddyn adrodd 2017-18. Mae'r cynnig yn seiliedig ar yr angen i ailedrych ar y gofynion adrodd cyfredol i adlewyrchu datblygiadau allweddol ers hynny gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- profiad awdurdodau lleol, eu partneriaid, y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr, rhanddeiliaid y sector preifat a'r trydydd sector o weithio gyda'r canllawiau presennol
- Cymru Iachach
- unrhyw syniadau a datblygiadau polisi sy'n dod i'r amlwg o fewn Llywodraeth Cymru
- "*Y Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*"
- *Y Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol: Canllawiau Mesur Gweithgarwch a Pherfformiad 2020-21* (a lansiwyd ym mis Ebrill 2020)
- gwersi a ddysgwyd o weithredu o dan gyfyngiadau Covid-19 ac unrhyw newidiadau parhaol mewn ymarfer sy'n deillio o hynny
- y pedair safon ansawdd ar dudalen 8 y Cod Ymarfer y cyfeirir ato uchod
- safbwyntiau a chanfyddiadau'r rheoleiddwyr a'r Comisiynwyr statudol
- canfyddiadau ac argymhellion ymchwil perthnasol
- gwersi a ddysgwyd o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig
- unrhyw gyfleoedd newydd a gynigir gan ddatblygiadau mewn technoleg gwybodaeth a llwyfannau digidol

Rhagwelwyd y byddai dogfen ganllaw newydd yn dwyn ynghyd y gofynion adrodd statudol newydd ynghyd â chanllawiau helaeth i gefnogi cynhyrchu a defnyddio'r adroddiad blynyddol a'i ledaenu. Os bernir bod angen newid y canllawiau presennol, er mwyn gwneud hyn mewn modd cyfunol, mae angen gwneud newidiadau i'r Cod Rhan 8 ac o ganlyniad uniongyrchol i'r diwygiadau i'r cod, mae angen diwygio'r rheoliad rhagnodedig hefyd.

Ystyrir pedwar opsiwn:

1. **Gwneud dim**

Mae'r opsiwn hwn yn golygu peidio â gwneud unrhyw newidiadau a gadael y canllawiau fel y'u nodir yn y Cod Ymarfer Rhan 8 a ddyroddwyd yn 2016.

2. **Gwneud yr isafswm**

O ddewis yr opsiwn hwn, byddai'r Cod Ymarfer a'r Rheoliadau yn aros yr un fath, ond byddai dogfen ganllaw ychwanegol atodol, ynghyd ag offer a thempledi i

gynorthwyo â'r gwaith o baratoi'r adroddiadau blynyddol, yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Adnoddau dewisol fyddai'r rhain. Disgwylir na fyddai hyn yn effeithio ar y gost i'r awdurdodau lleol wrth baratoi'r adroddiadau blynyddol ond gallai wella cysondeb ac ansawdd yr adroddiadau blynyddol.

**3. Canllawiau newydd**

I ystyried y ddeddfwriaeth a'r polisïau newydd yn ymwneud â pherfformiad a gweithgarwch gwasanaethau cymdeithasol, byddai angen newid y Cod Ymarfer a'r Rheoliadau Rhan 8 presennol. Ar hyn o bryd maent yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu cynnwys nad yw bellach yn addas yn yr adroddiadau blynyddol.

Er mwyn cefnogi awdurdodau lleol â'r newid i'r Cod Ymarfer, byddai angen dogfen ganllaw newydd. Byddai hon yn nodi'r disgwyliadau yn fanylach a byddai'n caniatáu i awdurdodau lleol lunio adroddiadau blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer diwygiedig.

Cyn datblygu'r canllawiau newydd, byddai contractwr yn cael ei gaffael i weithio gyda rhanddeiliaid ac awdurdodau lleol. Byddai hyn yn caniatáu mewnbwn arbenigol annibynnol i'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau, ac yn sicrhau bod yr allbynnau o ansawdd digonol ac yn diwallu anghenion rhanddeiliaid, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

Mae angen cyfnod ymgynghori cyn gwneud unrhyw newid i'r Codau Ymarfer neu i'r Rheoliadau, cyn iddynt gael eu gosod gerbron Senedd Cymru a'u dwyn i rym.

**4. Templedi rhagnodol**

Byddai'r opsiwn hwn yn mynd un cam ymhellach nag Opsiwn 3, ac yn hytrach na rhoi canllawiau i awdurdodau lleol, byddai'r Cod Ymarfer a'r Rheoliadau yn nodi templedi rhagnodol y byddai angen i bob awdurdod lleol eu cwblhau yn eu hadroddiad blynyddol. Byddai hyn yn golygu bod pob awdurdod lleol yn darparu'r un dystiolaeth a chynnwys ar gyfer templed safonol.

Y dull gweithredu a argymhellir yw Opsiwn 3, ac mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi'i seilio ar yr argymhelliad hwn.

Mae'r argymhelliad hwn yn seiliedig ar y ffaith mai dyma'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o sicrhau bod y gofynion o dan God Ymarfer Rhan 8 yn unol â'r gofynion a osodir ar awdurdodau lleol gan y Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Bydd yn caniatáu dull hyblyg ond cyson o ymdrin ag Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol, nad yw'n rhy ragnodol nac yn rhoi gormod o faich ar staff i'w cwblhau.

**Prawf hidlo'r gystadleuaeth**

Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi'i gynnal ac nid oes disgwyl i'r Cod Rhan 8/Rheoliadau effeithio ar gystadleuaeth yng Nghymru nac ar allu busnesau Cymru i fod yn gystadleuol.

Mae'r Cod Rhan 8 wedi bod yn destun Asesiad Effaith Integredig llawn. Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi dangos nad oes unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol ar unrhyw un o'r meysydd sy'n cael eu hystyried. Bydd crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru wedi iddo gael ei gyhoeddi.